**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd 7:00 y.h. Nos Fawrth, 17 Mawrth 2020 Y Sefydliad Coffa, Llanrug.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Philip Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Martin Jones, Goronwy Hughes, Richard Robinson, Meirwen Lloyd, Haf Williams, Cemlyn Jones.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Hefin Jones, Clifford Williams, Alan Pritchard, Beca Brown, Iola Parry

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

**Clerc**: Meirion Jones

**594. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod ac fe eglurwyd mai hwn fyddai'r cyfarfod olaf am dipyn oddi tan yr amgylchiadau presennol.

**595. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**596. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**597. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 18 Chwefror 2020**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**598. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

Diolchwyd i bawb am droi allan i'r diwrnod casglu ysbwriel a nodwyd fod y broblem o hylif mewn poteli yn parhau oddi amgylch yr ardal. Adroddodd y Clerc ei fod wedi bod mewn cysylltiad a Chyngor Gwynedd ar hyn ac fe ddylai unrhyw gwyn am y math yma gael ei gyfeirio tuag at Gyngor Gwynedd a byddai nhw wedyn yn trefnu i rhywun ddod i'w nol. Awgrymwyd mai y drefn orau i'w fabwysiadu byddai i unrhyw gwyn ddod drwy'r clerc, yna fod y clerc yn ei adrodd drwy gyfrif personol y cyngor gyda Cyngor Gwynedd ac felly byddai yn haws cadw rheolaeth ar y cwynion.

**Penderfynwyd:** Cytuno i hysbysu'r clerc o leoliad unrhyw ddigwyddiad o natur fel hyn fel y gall ei gofnodi drwy'r ffynonellau priodol.

**599. I dderbyn adroddiad o gyfarfod o'r Pwyllgor Hamdden a Mwynderau a gynhaliwyd 27 Chwefror 2020**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones (Cadeirydd Pwyllgor Hamdden am Mwynderau) fod y pwyllgor wedi cyfarfod i bwrpas penderfynu ar offer ar gyfer y gampfa tu allan.

Gofynnir am ganiatâd y cyngor i ddirprwyo i aelod arwyddo unrhyw ffurflenni ceisiadau am grant ar gyfer yr uchod yn ogystal a'r Clerc.

Adroddwyd fod arwydd newydd wedi archebu ar gyfer mynediad i Cwm y Glo

Nodwyd fod cais wedi ei wneid am offer o gynllun Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer prosiect glöyn byw

Edrychwyd ar y posibilrwydd o gael 'planters' gyda blodau ynddynt ar y ffordd i fewn i Llanrug a Cwm y Glo

**Penderfynwyd:**

- Derbyn a diolch am yr adroddiad
- Awdurdodi'r Cynghorydd Cemlyn Jones arwyddo unrhyw ffurflen cais am grant ar ran y cyngor
- Y Clerc y gael barn Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Priffyrdd ar y planters

**600. I dderbyn diweddariad yn dilyn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar Nos Lun, 3ydd o Chwefror 2020 yn Ysgol Gynradd Llanrug i drafod materion yn ymwneud a problemau traffig yn Llanrug.**

Adroddwyd fod y cyfarfod wedi bod yn llwyddiannus iawn ac ers y cyfarfod mae nifer o weithgareddau wedi cymryd lle. Mae hyn yn cynnwys

- Presenoldeb uwch o'r heddlu yn yr ardal;
- Llinellau gwyn wedi eu peintio ar y sgwâr;
- Fod y swyddog gorfodaeth parcio yn ymweld a Llanrug yn rheolaidd

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a ceisio cael rhywbeth allan i'r cyhoedd i hysbysu hyn fel man cychwynnol o ganlyniadau hyd y hyn yn dilyn y cyfarfod

**601. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

**Addysg ôl 16**

Adroddiad wedi mynd i'r Cabinet yn gofyn am yr hawl i ymgynghori ar drefn newydd yn Arfon, ond am gysidro Dwyfor Meirion hefyd, ond pwyslais ar Arfon yn gyntaf.

**Adeilad Ysgol Cwm y Glo**

Er gwybodaeth mae Pwyllgor y Neuadd erbyn hyn wedi gyrru llythyr i'r Cyngor yn datgan eu bod yn hapus i Menter Fachwen gymryd yr adeilad drosodd cyn belled a bo defnydd cymunedol yn dal yn bosib..

**Coronavirus**

Mae'r Cyngor wedi gwahanu eu gwasanaethau i ddau flaenoriaeth. Byddant yn ceisio cadw y gwasanaethau yn blaenoriaeth 2 i fynd cyn hired a phosib, tra yn cydnabod o bosib bydd rhaid gollwng rhai er mwyn sicrhau y gwasanaethau yn Blaenoriaeth 1.

Blaenoriaeth rhif 1: Darparu gwasanaethau angenrheidiol (gofal/ diogelu ayb)
Blaenoriaeth rhif 2: Darparu gwasanaethau cymunedol eraill

Y Prif Weithredwr yn cyfarfod bob dydd hefo'r Penaethiaid ac adran cyfathrebu.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**602. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

Dim adroddiad ar gael

**603. I dderbyn adroddiad gan y Bwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cadeirydd, yn absenoldeb y Cynghorydd Hefin Jones (Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent a oedd yn ynysu) fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 14 o Fawrth 2020 yn y fynwent. Ymysg y materion i'w adrodd arnynt oedd

- Cyflwr y ffordd sydd yn mynd at y fynwent. Adroddwyd fod y ffordd yn dyllau ac eu bod angen eu llenwi fewn. Y Clerc i adrodd hyn i Gyngor Gwynedd.
- Adroddwyd fod angen tacluso'r fynwent ar sail fod blodau ynghyd a potiau blodau wedi cael ei gwasgaru ar hyd y fynwent yn sgil y tywydd diweddar.
- Adroddwyd fod y gwaith o godi'r cerrig beddi wedi ei orffen yn dilyn iddynt gael eu rhoi lawr i orffwys yn sgil nad oeddynt yn saff
- Adroddwyd fod diolchiadau wedi dod i law gan deuluoedd y rhai sydd wedi ei effeithio gyda'r cerrig beddi. Roedd y teuluoedd yn gwir werthfawrogi gwaith y cyngor.
- Nodwyd fod un bedd angen ei lenwi yn y cefn;
- Adroddwyd fod cwyn wedi dderbyn am gyflwr un bedd – y clerc i gysylltu a'r ymgymerwr i ofyn iddynt ddod yn ôl i dacluso'r bedd;
- Adroddwyd byddai yn debygol o gysegru tir yn y fynwent tua mis Mai;
- Nodwyd fod angen cario allan asesiad risg a y llif dwr yn y fynwent. Y clerc i gysylltu a Cyfoeth Naturiol Cymru

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**604. I gael diweddariad ar sefyllfa clwb ieuenctid**

Adroddwyd fod bil Cyngor Gwynedd ar gyfer cynnal y clwb ieuenctid wedi cyrraedd am y flwyddyn.

Nodwyd yn sgil y sefyllfa bresennol bydd yn rhaid dod a'r clwb i ben.

**Penderfynwyd:** Cytuno i dalu bil Cyngor Gwynedd am y gwasanaeth clwb ieuenctid.

Derbyn yr adroddiad fod y clwb wedi cau am nawr ac hefyd bydd Y Sefydliad Coffa yn cau ar ôl cyfarfod o'r cyngor heno

**605. I dderbyn diweddariad ar adroddiad blynyddol y cyngor**

Adroddwyd fod yr adroddiad wedi ei ddosbarthu i bob tŷ yn Llanrug a Cwm y Glo ac erbyn hyn fe ddylai pawb fod wedi ei dderbyn. Adroddwyd nad oedd rhai ddim wedi ei dderbyn.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth a cytunwyd fod yr adroddiad wedi bod yn fanteisiol iawn i drigolion.

**606. Ceisiadau Cynllunio**

a) **Rhif y Cais:** C20/0193/23/LL

**Math o Gais:** Cais Llawn

**Bwriad:** Cais ar gyfer diwygio lleoliad dau dy, ac amnewid un bwthyn am dy deulawr (cynllun diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd o dan C18/0942/23/LL)

**Ymgeisydd:** Mr Alun Williams (Cefn Du Construction Ltd)

**Lleoliad:** Plotiau 7, 8 & 9, Tir Cae'r Eglwys, Ffordd Llanberis, Llanrug, Caernarfon, LL55 4JA

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Mynegwyd siom fod cyfle wedi golli i adeiladu byngalow

b) **Rhif y Cais:** C20/0180/23/LL

**Math o Gais:** Cais Llawn

**Bwriad:** Dymchwel y tŷ presennol a chodi tŷ newydd yn ei le

**Ymgeisydd:** Mr Owain Williams

**Lleoliad:** Bryn Gwyn Mawr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RG

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

Fe ddatganodd y Cynghorydd Richard Robinson ddiddordeb yn y cais yma a ni chymerodd ran yn y drafodaeth.

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif y Cais:** C20/0145/23/AC

**Math o Gais:** Addasu neu ryddhau rhwymedigaethau cynllunio

**Bwriad:** Cais ar gyfer diwygio amod 2 (cynlluniau) o ganiatâd cynllunio rhif C19/0407/23/LL

**Ymgeisydd:** Ms Sarah Evans

**Lleoliad:** 10, Rhos Rug Ffordd Yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4BG

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

**607. COVID-19 –**

**a) I benderfynu ar pa gamau gellir Cyngor Cymuned Llanrug ei wneud ar gyfer y pandemig;**
**b) I gymeradwyo polisi brys wrth gefn ar gyfer y cyfnod yma;**
**c) I ystyried ymestyn dirprwyo penderfyniadau'r Cyngor i'r Clerc yn ystod unrhyw gyfnod o weithgaredd cyfyngedig a ddatganwyd gan y Llywodraeth mewn perthynas â'r firws Covid-19. Dirprwyo o'r fath i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau i'w drigolion ”.**

Adroddwyd gan y clerc mae'n eithaf tebygol mai hwn fydd y cyfarfod diwethaf o'r cyngor am beth amser oddi tan yr amgylchiadau. Wrth sgwrs bydd angen i waith y cyngor barhau ac mae'n debygol y bydd mwy o bwysau ar ei waith yn sgil y pandemig yma. Y cyngor sydd fwyaf agos tuag at y bobl ac efe fydd mewn sefyllfa i ymateb i anghenion trigolion.

Oddi tan yr amgylchiadau gofynnir i'r cyngor gymeradwyo polisi pandemig ynghyd a'i argymhellion sydd wedi ddrafftio gan yr SLCC a NALC.

Fod y cyngor yn pasio penderfyniad i sefydlu dirprwyaeth addas i'r Clerc i gadw pethau i fynd. Gallai geiriad addas ar gyfer yr agenda fod “ystyried ymestyn dirprwyo penderfyniadau'r cyngor i'r Clerc yn ystod unrhyw gyfnod o weithgaredd cyfyngedig a ddatganwyd gan y Llywodraeth mewn perthynas â'r firws Covid-19. Dirprwyo o'r fath i alluogi'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau i'w drigolion”.

**Penderfynwyd:** Yn unol ac argymhelliad SLCC a NALC, dirprwy penderfyniadau i’r ‘swyddog priodol’ sef y Clerc, yn ystod y cyfnod Corofeirws-19.

**608. I ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan y cyngor;**

Fe ddatganodd yr isod ddiddordeb yn y ceisiadau isod:

Clerc – Clwb Pêl droed Llanrug Unedig;
Y Cynghorydd Meirwen Lloyd, Clwb Pêl droed Llanrug Unedig
Y Cynghorydd Goronwy Hughes – Y Sefydliad Coffa

**a) Sefydliad Coffa, Llanrug**
**b) Clwb pêl-droed Llanrug Unedig**
**c) Ambiwlans Awyr Cymru**
**d) Seindorf Llanrug**

Penderfynwyd rhoi cyfraniad fel a ganlyn:

**a) Sefydliad Coffa, Llanrug - £2,500**
**b) Clwb pêl-droed Llanrug Unedig - £1,000**
**c) Ambiwlans Awyr Cymru - £200**
d) **Seindorf Llanrug - £750**

Nodwyd ymhellach fod y cyngor eisoes wedi penderfynu defnyddio arian er cof am y Cynghorydd Llywelyn Williams i bwrcasu teledu ar gyfer defnydd yn y Sefydliad Coffa. Gellir ei ddefnyddio wedyn ar gyfer gwaith y cyngor ynghyd a bydd ar gael i logwyr y Sefydliad Coffa.

**Penderfynwyd:** Y Cynghorydd Goronwy Hughes a’r Clerc i wneud y trefniadau ar unwaith i bwrcasu teledu**.**

**609. Apêl Cynllunio – Pen y Buarth, Lon Groes, Llanrug**

Adroddwyd fod y cais cynllunio yma wedi ei wrthod gan Gyngor Gwynedd ac fod yr ymgeisydd bellach yn apelio yn erbyn y penderfyniad. Nodwyd fod y cyngor cymuned wedi cefnogi’r cais ond yn ôl y rhesymau a nodir ar argymhelliad yr awdurdod cynllunio roeddynt wedi nodi nad oedd y cyngor cymuned wedi gwneud unrhyw sylw. Darparwyd copi o lythyr wedi anfon i’r awdurdod cynllunio gan y cyngor cymuned yn cefnogi’r cais.

**Penderfynwyd:** Anfon copi o’r llythyr yn cefnogi’r cais cynllunio gwreiddiol i’r apêl.

**Daeth y cyfarfod i ben am 20:30**

**Arwyddwyd:**

**Cadeirydd:** **Dyddiad:**